CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF
DYDD MAWRTH 17eg CHWEFROR 2009
SWYDDFA MENTER LLAMBED
AC AR ÔL HYNNY AR GAE MAESYDERI

Ynglŷn â llogi Cae Maesyderi, Llanbedr Pont Steffan (10.00-11.00am)

Croeso'r Cadeirydd

Croesawodd y Maer Derek Wilson bawb i'r Cyfarfod.

Yn bresennol:

Cyng. Maer Derek Wilson (Cadeirydd)
Cyng. Dirprwy-Faer Selwyn Walters; Chris Thomas.
Cynhorydd Sir: Robert (Hag) Harris, Ivor Williams.
Mr Spencer Defriend Adran yr Ystadau Cyngor Sir Ceredigion

Ymddiheuriadau:

Cyng. Dorothy Williams; Rob Phillips.

Fel y soniwyd yn y llythyr o'r 9fed o Ionawr 2009 a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion, penderfynwyd mewn cyfarfod diweddar y Cabinet i ganiatau cynnig prydles Cae Maesyderi i Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan am gyfnod i fyny at 3 blynedd.

Mae'r broses wedi cychwyn erbyn hyn. Eglurodd y Swyddog o'r Cyngor fod gwerthu'r cae wedi bod yn opsiwn i'r CSC gan fod angen arian arnynt i gynyddu eu hasedau ee i adeiladu ysgol newydd gynradd yn Synod Inn. Beth bynnag, penderfynwyd ar brydles ar gyfer y cae i Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan am dâl enwol. Gobeithir sefydlu amwynder sef parc/lle chwarae a fydd o gymorth i'r gymuned.

Bydd y Cyngor Tref yn gyfrifol am gynnal y cae gan gynnwys gofalu am y ffens, torri'r gwair a'r yswiriant. Os bydd angen terfynu'r les bydd yn ofynnol i roi 6 mis o rybudd i Gyngor Sir Ceredigion.

Adroddodd Mr Defriend fod y Cyngor Sir yn bwriadu anfon manylion ac amodau'r les mewn ffordd ffufriol i'r Cyngor Tref, yn y dyfodol agos.